Dear Body gan Gwmni Dawns Protein yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Ar y 12fed o Fawrth 2009 bydd Cwmni Dawns Protein yn perfformio cynhyrchiad i ddathlu ei benblwydd yn ddeg oed sef *Dear Body* yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. 'Rydym yn edrych am ddawnswyr o'r gymuned leol sydd â diddordeb mewn cymryd rhan. Llwyfanwyd *Dear Body* am y tro cyntaf yn y Corn Exchange yn Brighton ar y 7fed o Hydref 2008 a bydd yn teithio o gwmpas y Deyrnas Unedig rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2009.

Mae *Dear Body* yn sioe ffraeth a dychanol sy'n archwilio'n hobsesiwn cynyddol gyda gofal a delwedd ein cyrff. Mae'n datblygu themâu a drafodwyd eisoes mewn cynhyrchiad blaenorol gan y cwmni sef *B for Body*, a enillodd Bleidlais y Gynulleidfa a lle yn rownd derfynol y Wobr *Place* 2006. Mae *Dear Body* yn cyfuno coreograffi dyfeisgar, hiwmor ac animeiddiad trawiadol Rachel Davies, y wneuthurwraig ffilm lwyddiannus. Perfformir *Dear Body* gan ddawnswyr proffesiynnol Cwmni Dawns Protein yn ogystal â chast o amaturiaid a ddewisir o'r gymuned leol. Bydd y cast hwn yn cynnwys pobl o bob siâp a maint dros 25 mlwydd oed, gyda neu heb brofiad blaenorol yn y meysydd perfformio a dawnsio.

Os oes gennych diddordeb mewn ymuno â'r cast ar gyfer perfformiad *Dear Body* yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, cynhelir gweithdy arbrofol gyda Luca Silvestrini, Cyfarwyddwraig Artistig Cwmni Dawns Protein, yn y Ganolfan ar Ddydd Sadwrn yr 22ain o Dachwedd, o 3.00yp tan 6.00yh. Pe hoffech fynychu'r gweithdy hwn neu pe hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Victoria Smathers ar 01970 62 85 62 neu e-bostiwch vgg@aber.ac.uk.

www.proteindance.co.uk